# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# RHAGLEN - CYFARFOD HYDREF 2021

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 12ed o Hydref 2021** |
| **AMSER** | **7 y.h. – Cyfarfod misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **Y Festri, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Ynyr Ellis** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Gan nad oedd posib i **YE** ymuno i gadeirio heno oherwydd amgylchiadau tŷ hwnt i reolaeth cytunodd **SP** gadeirio ar y noson. Croesawodd bawb i'r cyfarfod.<br><br>Yn bresennol heno roedd Sara Williams **(SW),** Sianelen Pleming **(SP)** Olwen Roberts **(OR),** John Owen **(JO),** Gwilym Williams **(GW)**, Griffith Jones **(GJ),** William Jones **(WJ),** a'r Cyng Aled Wyn Jones **(AWJ).** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Lisbeth James **(LJ)**, Ynyr Ellis **(YE)** ac Emlyn Hughes **(EH).** |
| **3.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | **WJ** ar bwynt **14 (a)** |
| **4.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Nid dderbyniwyd unrhyw bryderon. |
| **5.** | **COFNODION CYFARFOD MEDI 2021** |
| | **a) CYFLWYNO A MABWYSIADU**<br><br>Derbyniwyd cais am fan newidiadau gan **GW** sef:<br>• **Pwynt 13 (a)** **GJ** nid **GW** oedd wedi codi mater y bont<br>• **Pwynt 13 (b)** **GJ** oedd wedi hysbysebu'r Cyngor am y cais i leoli potiau blodau, hefyd i gywiro mae yn Llithfaen oeddent yn cael eu lleoli ac nid Pistyll**.**<br><br>Cynigiodd **JO** gywirdeb gweddill y cofnodion gyda **GW** yn eilio a phawb yn cytuno. |

**b) MATERION YN CODI**

**i. TOILEDAU CYHOEDDUS LLITHFAEN-**

Adroddodd y clerc ei bod bellach wedi derbyn gwybodaeth gan Amanda Murray ni fydd y Cyngor Sir yn darparu unrhyw waith ar y safle (yn cynnwys chwynnu) gan fod y Cyngor Cymuned yn flaenorol wedi gwrthod ymuno a'r cynllun i'w fabwysiadu ar gost o £2,000 yn dymhorol neu £4,000 yn flynyddol.

Cadarnhaodd bydd modd i'r Cyngor Cymuned ail gysidro ac ychwanegodd bod y Cyngor Sir yn y dyfodol agos yn bwriadu craffu ar y ffordd ymlaen gyda'r toiledau gwag (dymchwel neu ei gwerth a.y.b. Nid oedd amserlen i hyn.

Adroddodd AMJ os bydd y Cyngor Cymuned yn bwriadu ei fabwysiadu bydd y Cyngor Sir yn parhau i'w lanhau a'i drwsio. Awgrymodd i'r Cyngor gysidro ei agor yn dymhorol.

Cynigiodd **OR** ofyn am adborth y trigolion yn Llythyr Llithfaen.

Adroddodd **SP** bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn y Festri nos fory a bydd yn gwneud cais i ychwanegu'r mater i'r drafodaeth.

**ii. TWMPATHAU CYFLYMDER –**

Y mater wedi ei gyfeirio at ddwylo Ceri Hughes Thomas yn yr Uned Drafnidiaeth gan Awen Bayley o'r Adran Amgylchedd. Nid oedd gan y clerc unrhyw ddiweddariad pellach.

> **Commented [GT1]:** Wedi ceisio cysylltu a Ceri, disgwyl diweddariad i'm e.bost

**iii. ARWYDDION LÔN RHOSYDD-**

Y mater wedi ei gyfeirio at ddwylo Ceri Hughes Thomas yn yr Uned Drafnidiaeth gan Awen Bayley o'r Adran Amgylchedd. Nid oedd gan y clerc unrhyw ddieddariad pellach.

> **Commented [GT2]:** """"""""

**iv. PONT LLITHFAEN – TWLL YN Y WAL**

Nid oedd Swyddogion adran Priffyrdd Dwyfor yn ymwybodol bod gwaith yn cael ei gynnal ar y bont. Y mater wedi ei ail gyfeirio i ymgynghoriaeth gyda chais iddynt ymateb yn uniongyrchol i'r clerc.

Adroddodd yr aelodau mae conau un o'r trigolion sydd wedi ei sefydlu yno ar hyn o bryd.

> **Commented [GT3]:** Glyn Titus wedi cyfeirio'r mater i Robin Owen i wneud assesiad

**v. SP ARWYDDION DWR AR LON Y NANT –**

Derbyniwyd diweddariad gan Briffyrdd Dwyfor bod y gwaith i'w symud a sicrhau eu bod yn fwy amlwg wedi ei raglennu i'w wneud yn y dyfodol agos.

vi. **CHWYN CLYMOG JAPANEAIDD AR LON RHOSYDD -**

Y mater yn nwylo Priffyrdd Dwyfor - Cadarnhaodd GJ nad ar dir preifat mae'r broblem yn bodoli - y clerc i drafod eto gyda'r swyddog.

> **Commented [GT4]:** Bydd wedi cael ei sprayo yn y bythesfnos dair wythnos nesaf

**vii. DARPARIAETH O FIN BAW CI I BISTYLL**

Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn caniatâd gan y Cyngor Sir i leoli bin baw ci newydd ym Mhistyll gyda'r amod ei fod yn cael ei dreialu yn y gulfan 100 llath o Gwerindy yn gyntaf er mwyn diogelu'r Swyddog wrth wagio. Cytunodd yr aelodau. Y clerc i wneud y trefniadau perthnasol.

> **Commented [GT5]:** Derbyniwyd ohebiaeth gan Glasdon yn diweddaru nid oedd angen gyrru y bin gyda difrod iddo yn dol. Cytunodd GJ ei drwsio ac ei leoli yn y gilfan ym Mhistyll



*Darparwyd gan: Clerc y Cyngor, 1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7HP*
*Ffon: 07979 438 307 E.Bost: ccpistyll@outlook.com Gwefan: https://cyngorcymunedpistyll.weebly.com*

| | |
|---|---|
| | viii. **MYNWENT PISTYLL**<br>Adroddodd GW nad oedd y gwaith wedi ei gyflawni i dorri gwair y Fynwent hyd yn hyn. Y clerc ddilyn y mater ymhellach. |
| **6.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **a) RHIF CAIS/APP REF: C21/0930/43/DT –**<br>4, MOUNT PLEASANT, LLITHFAEN, PWLLHELI, GWYNEDD, LL53 6NU<br>Dymchwel estyniadau ochr a chefn presennol a chodi estyniadau ochr a chefn newydd yn eu lle, codi porth ar y blaen a ffenestr gromen ar y cefn.<br>Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad - y clerc i hysbysebu'r Adran Gynllunio<br><br>**b) RHIF CAIS/APP REF: C21/0935/43/LL –**<br>FFERM TAN Y FOEL, LLITHFAEN, PWLLHELI, GWYNEDD, LL53 6LY<br>Cais llawn i osod 4 pod glampio ynghyd a darparu ardal ailgylchu/sbwriel, storfa beics, llain parcio a throi gyda mannau gwefru cerbydau trydan, llwybrau troed cysylltiedig, tirlunio safle ynghyd a gosod gwaith trin gyda suddan ddraenio.<br>Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad - Y clerc i sicrhau ei bod yn pwysleisio nid oedd gwrthwynebiad ar amod ni fydd cynnydd i niferoedd y podiau.<br>Argymell bod unrhyw arwyddion hysbysebu'r safle yn ddwyieithog.<br><br>DERBYNIWYD SYLWADAU GAN GW BOD CEISIADAU YN DOD GER BRON Y CYNGOR GYDA PHOLISI FFENEST YMATEB Y CYNGOR SIR YN 21 DIWRNOD - Y CLERC I OFYN AM 6 WYTHNOS I YMATEB. |
| **7.** | **GWERSYLLA YN Y MAES PARCIO** |
| | Adroddodd SP bod y Cyfreithiwr wedi cysylltu â gofyn am gofnod yng nghofnodion y cygor yn cadarnhau'r wybodaeth a ddarparwyd gan GW a GJ fel tystiolaeth o berchnogaeth tir gan y cyngor cymuned. Aeth ymlaen i esbonio ei bod yn hytrach wedi darganfod llythyrau yn cadarnhau'r wybodaeth ac wedi eu gyrru mlaen. |
| **8.** | **Y GANOLFAN** |
| | Adroddodd SP nad oedd y cyfarfod wedi ei gynnal fel i obeithiwyd. |
| **9.** | **LLWYBR CERDDED I LITHFAEN** |
| | Adroddodd AWJ ei fod wedi rhoi cais am lwybr gyda Griffith Williams am lwybr hyd at Nefyn a ni fydd y Llywodraeth yn cysidro ceisiadau pellach tan y flwyddyn nesaf. Aeth ymlaen i esbonio bod hon yn broses gythreulig o hir. |

**Commented [GT6]:** Danny wedi methu ei wneud hyd yn hyn oherwydd tywydd garw, bydd yn mentro cyn gynted a bo modd.

**Commented [GT7]:** Y cwbwl wedi ei gyrru mlaen i Adran cynllunio

**Commented [GT8]:** Hefyd wedi ei gyrru mlaen



*Darparwyd gan: Clerc y Cyngor, 1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7HP*
*Ffon: 07979 438 307 E.Bost: ccpistyll@outlook.com Gwefan: https://cyngorcymunedpistyll.weebly.com*

| | |
|---|---|
| **10.** | **SP - HAFOD CEIRI** |
| | Adroddodd SP ei bod yn falch iawn i gadarnhau bod to'r Capel bellach wedi ei ddiogelu. Bydd y camau nesaf yn cynnwys adnewyddu'r ffenestri, bydd y capel wedyn yn hollol glyd a saff rhag tywydd a'r gath!.<br><br>Esboniodd bod arian wedi ei dderbyn bellach gyda'r bwriad o sefydlu caffi. Codwyd yr arian mewn partneriaeth a Betsi Cadwaladr gyda'r gobaith o sefydlu caffi hyblyg fydd hefyd yn gylch gorchwyl i'r henoed a'r rhai sydd angen clust. Syniadau pellach ar gyfer ei ddefnydd yw Clwb Cinio i'r Henoed a Chlwb Mam a Phlentyn. Cadarnhaodd bod holiadur wedi ei yrru at drigolion yn gofyn am syniadau pellach. |
| **11.** | **YMGYNGHORIAD AR DRETHI LLEOL AR GYFER AIL GARTREFI A LLETY HUNANARLWYO - ISADRAN DIWYGIO CYLLID LLYWODRAETH LEOL** |
| | Yn dilyn trafodaeth helaeth gydag arweiniad ac arbenigaeth gan AMJ cytunodd yr aelodau ymatebion ar y cyd - y clerc i'w hanfon ymlaen yn briodol. |
| **12.** | **FFRAMWAITH ADFYWIO CYNGOR GWYNEDD - ARDAL NI 2035 (CYNGOR CYMUNED PISTYLL)** |
| | Trafodwyd ymatebion a dderbyniwyd yn flaenorol - cytunodd yr aelodau ymateb ar y cyd – y clerc i'w anfon ymlaen. |
| **13.** | **MATERION LLEOL** |
| | **a)** **GW - CWYN GORFODAETH G21/0121 –**<br>Gwelfor, 2, Pistyll Terrace, Pistyll, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6LS<br>Gofynnodd **GW** am unrhyw ddiweddariad parthed y gwyn am y cais uchod. Nid oedd y clerc wedi derbyn diweddariad ers y 21.05.21 - y clerc i wneud ymholiadau gan gopïo Aneurin Mon Parry, Gareth Jones a Dafydd Gibbard i'r e.bost.<br><br>**b)** **SP – CYFARFOD HAFOD CEIRI**<br>Adroddodd SP bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn y Capel nos fory am 6 o'r gloch - materion i'w drafod:<br>• Diffiliwr<br>• Gwirfoddoli i'r Cynllun Gorchwylio Cymunedau<br>• Toiled Cyhoeddus<br><br>**c)** **SW – BAW CI**<br>Adroddodd SW bod problem enfawr gyda baw ci o flaen ei thŷ er gwaethaf sefydlu bin yn gyfagos. Nid oedd angen sylw pellach. |

**Commented [GT9]:** Wedi ei yrru

**Commented [GT10]:** Wedi trafod ymatebio gyda Leusa, bydd yn cysylltu mhellach yn y dyfodol i drafod atebion y cymunedau eraill

**Commented [GT11]:** Wedi ei yrru mlaen ac wedi copio GW yn yr e.bost

**Commented [GT12]:** Cwyn wedi ei wneud bod y bin yn llawn – GJ wedi cysylltu eto – Dylan Jones yn dwud ei fod wedi ei wagio bore ma.

| | |
|---|---|
| | d) **WJ – ARWYDD WEDI LLITHRO LAWR POLYN**<br>Adroddodd WJ am arwydd Gyrrwch yn Ddiogel ym Mhistyll i gyfeiriad Llithfaen wedi llithro i lawr y postyn - Y clerc i adrodd i'r Cygnor Sir. |
| **14.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| | **a) GETHIN JONES – CAIS I'R CYNGOR GEFNOGI CAIS CYNLLUNIO C21/0668/44/LL**<br>Roedd hwn yn gais i gefnogi Cais Cynllunio gan deulu ifanc yn wreiddiol o'r pentref nawr yn Nefyn gyda bwriad o symud nôl i'w gynefin.<br>Cytunodd yr aelodau ar y cyd eu bod yn gefnogol i'r cais.<br>Y clerc i yrru blaen y gefnogaeth i'r Adran Gynllunio gyda chopi i AMJ.<br><br>**b) YMGYNGHORIAD AR DDIWEDDARU TROTHWYON ENILLION AR GYFER ADENNILL Y DRETH GYNGOR**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau<br><br>**c) GWRTHWYNEBU CEISIADAU CYNLLUNIO AR SAIL PERYGL I'R GYMRAEG – HOWARD HUWS, CYLCH YR IAITH-**<br>Croesawyd y wybodaeth<br><br>**d) YMGYNGHORIAD AR DDEFNYDD PERYGLUS O FADAU DWR PERSONOL (JET SKIS) – LIZ SAVILLE ROBERTS**<br>Cytunwyd ei gefnogi ar y cyd<br><br>**e) YMGYNGHORIAD ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – CHWEFROR 2022**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau<br><br>**f) DAFYDD RHYN – TIR COMIN LLITHFAEN**<br>Wedi ei drafod yn flaenorol |
| **15.** | **CYLLID** |
| | **a) CYSONIAD Y CYFRIFON**<br>Cynigiodd GW y cysoniad yn gywir gyda JO yn eilio a'r aelodau yn cytuno. |

**Commented [GT13]:** Wedi ei yrru mlaen i Priffyrdd Dwyfor Glyn Titus yn sortio yn bersonol

**Commented [GT14]:** Wedi ei yrru mlaen i Aled ac yr Adran gynllunio

**Commented [GT15]:** Wedi gyrru ir Maritime ac Liz



*Darparwyd gan: Clerc y Cyngor, 1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7HP*
*Ffon: 07979 438 307 E.Bost: ccpistyll@outlook.com Gwefan: https://cyngorcymunedpistyll.weebly.com*

**b) CYFRIFLEN BANC**

**Cyfrif Cyfredol – 1af o Fedi – 30 o Fedi 2021**

| **BALANS CYCHWYN -** | | **£13, 189.71** |
|---|---|---|
| **RHIF SIEC** | **TALIADAU** | **DERBYNIADAU** |
| 201215 | **320.00** | |
| 201216 | **37.80** | |
| D.U. | **35.00** | |
| 201214 | **180.00** | |
| 201217 | **180.00** | |
| **BALANS CAU –** | | **£12,436.91** |

**Cyfrif Cadw – 7fed o Fedi – 6ed o Hydref 2021**

| **BALANS CYCHWYN -** | **£2,660.87** |
|---|---|
| | **DERBYNIADAU** |
| | 0.00 |
| **BALANS CAU** | **£2,660.87** |

**c) TALIADAU I'W CYMERADWYO**

| | | |
|---|---|---|
| 201218 | Argraffdy Eryri | **180.00** |
| 201215 | Cyflog Clerc | **160.00** |
| 210216 | Treuliau Clerc | **18.05** |

**16. TREFNIADAU A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cychwyn gyda Chyfarfod Blynyddol 7pm yn Festri Capel Isaf 09.11.21

*LLOFNODWYD ................................................................................ DYDDIAD ............................................................................*